



**Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service**

Adroddiad Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Chwefror 2022



**Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service**

Ein Gweledigaeth

Bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn hyrwyddo gofal rhoddwyr a thrallwyso a thrawsblannu, drwy sefydlu a chymryd rhan mewn ymchwil gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel.

Rhagair

Fe wnaethom ddechrau 2022 gyda nodyn yn eich atgoffa bod COVID yn dal i fod ar flaen ein hymdrechion.

Wrth i ni ddechrau ar gyfnod newydd o gyfyngiadau oherwydd yr amrywiolyn Omicron, roedd ein hymdrechion serowiliadwriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymateb i hyn. Yn y diweddariad hwn, rydym wedi crynhoi ein hymdrechion hyd yma, ac yn rhoi rhywfaint o gyd-destun i'r ymdrechion. Mae'r samplau a ddarparwyd i'r prosiect bellach yn cyfrif am dri chwarter capasiti Stadiwm y Mileniwm petasem yn disodli seddi gyda samplau. Rydym yn adrodd hefyd, sut y gwnaethom nodi ymdrech ein cydweithwyr. Bydd y prosiect hwn yn parhau yn 2022, ac mae ganddo'r potensial i agor llwybrau ymchwil.

Mewn gwaith arall, mae gwaith ymgyrchu'r Awdurdod Ymchwil Iechyd wedi ein herio ar adrodd yn dryloyw. Rydym wedi cymryd camau breision dros y blynnyddoedd – dyma bedwerydd cyhoeddiad y fformat ymgysylltu newydd hwn o'n diweddariad ymchwil. Ynghyd â hyn a mesurau eraill, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein rhoddwyr a'n cymuned yn hollbwysig yn ein hadroddiadau.



Sian James
Arweinydd Hwyluso Ymchwil,
Datblygu ac Arloesi,
Gwasanaeth Gwaed Cymru

Ynghylch y ddogfen hon

Mae gan y ddogfen hon grynodedb cyfredol o'r holl weithgarwch ymchwil, datblygu ac arloesi arfaethedig, parhaus neu wedi'i gwblhau o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Mae'r fersiwn hon o'r ddogfen wedi'i haddasu'n arbennig fel y gall y rhoddwyr, y cleifion a'r cyhoedd weld y gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi maen nhw'n ei gefnogi drwy roi gwaed, bôn-gelloedd ac organau.

Mae sero-wyliadwriaeth COVID-19 wedi cyrraedd ei garreg filltir 18 mis. Erbyn hyn, mae ffocws yr epidemig ar ddeall effaith brechu torfol, hyd presenoldeb gwrthgyrff ac imiwnedd, pa mor gyffredin ydy COVID yn y boblogaeth, a difrifoldeb clinigol coronafeirws.

Mae'r canfyddiadau epidemiolegol wedi cael eu cyflwyno mewn cylchoedd iechyd cyhoeddus, a bwriedir iddynt gael eu cyhoeddi mewn cyfnodolion academiaidd.



Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi canolbwyntio ei ganfyddiadau ar y cyflawniadau logistaidd a chysylltiadau data sydd wedi cael eu gwneud fel rhan o'r prosiect hwn. Cyflwynodd Sian James yr agwedd hon yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Iechyd a Rheoli Rhoddwyr, Hamburg ym mis Medi 2021

Gwasanaeth Gwaed Cymru oedd yr unig wasanaeth yn y DU i gyflwyno astudiaeth epidemioleg COVID. Cafwyd trafodaeth fywiog gyda'r ymchwilwyr o Sanquin, a gyflwynodd archwiliad tebyg o roddwyr gwaed yr Iseldiroedd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn debygol o barhau â'r wylidwriaeth yn 2022 i asesu amrywiolion wrth iddynt ddod i'r amlwg, a bydd adroddiadau'n parhau i gael eu dosbarthu i arweinwyr Iechyd y Cyhoedd a Llywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd Ionawr 2022, roedd y prosiect wedi prosesu 52,185 o samplau. Erbyn Gorffennaf 2022, disgwylir y bydd nifer y samplau a brosesir yn fwy na nifer y seddi yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd.



o samplau ac yn dal i gyfrif

Dathlu blwyddyn o wylidwriaeth COVID

Wrth i ni nesáu at y pen-blwydd ym mis Mehefin, fe wnaethom gymryd yr amser i ddiolch i'n holl gydweithwyr a fu'n rhan o'r ymdrech hon yn ffurfiol. Roedd y pecyn diolch yn cynnwys neges o ddiolchgarwch am yr ymdrech, a thocynnau bach o werthfawrogiad.





Ym mis Tachwedd 2021, aethom i gynhadledd **Make It Public** gyntaf yr Awdurdod Ymchwil lechyd. Roedd y gynhadledd yn annog arfer gorau o ran tryloywder ymchwil, gyda thrafodaethau ynghylch effaith ymchwil ar gleifion a chymunedau. Ymhlith tryloywder mewn ymchwil, mae lledaenu canlyniadau'n weithredol ymhlith cyfranogwyr. Canfuwyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gymryd rhan mewn astudiaethau yn y dyfodol.

Ysgogodd hyn inni fyfyrion ar sut rydym yn dangos y tryloywder hwn gyda rhoddwyr a chyfranogwyr.

Yn ddiweddar cyflwynwyd canfyddiadau Astudiaeth Comeback (*WBSRD0067*) yng nghynhadledd Cymdeithas Trallwys Gwaed Prydain. Roedd gan yr astudiaeth hon 444 o gyfranogwyr a wirfoddolodd ar gyfer yr ymchwil hwn, gan roi gwybod i ni am eu profiadau mewn gwaith dilynol ym maes gofal sylfaenol.

Byddwn yn anfon llythyr o ddiolch i'r rheini a gymerodd ran yn yr astudiaeth am eu parodrwydd i ddatblygu ein hymchwil, gyda manylion am ble y gallant ddarllen y canfyddiadau.

Byddwn yn awr yn ystyried camau eraill i gynnwys cleifion, rhoddwyr a'n cymuned mewn effaith ymchwil.

Gwasanaeth Gwaed Cymru
Heol Cem Eidd, Foryguboriau,
Pontycyfan CF72 9WB
Ffôn: 01443 622000
Ffacs: 01443 622199
www.gwaed-cymru.org.uk

Welsh Blood Service
Elly Valley Road, Talbot Green,
Pontycyfan CF72 9WB
Tel: 01443 622000
Fax: 01443 622199
www.welshblood.org.uk

Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

As addressed

Diolch am gymryd rhan yn ein Ymchwil
Thank you for participating in our research

Dear Donor,

In 2019, you took part in our 'Comeback' research study. You completed a questionnaire about your experience after you could not donate blood.

We are letting those that took part in the study know that the results have been published. Due to the pandemic, there have been some delays getting to this point.

To read the complete study, visit:
<https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1111/tme.12816>

The Welsh Blood Service has improved the information we give to donors about their iron levels. We included steps that blood donors can take to look after their iron levels and prevent low haemoglobin. We have shared our findings with other blood services also.

If you have any questions about this, you can contact me on the details below. Once again, thank you for supporting the Welsh Blood Service and participating in our study.

Yours sincerely,
S. James
Sian James
Research Facilitation Lead

Tel: 01443 622119
Email: wbs.research@wales.nhs.uk

Thank you



Sefydliad ymchwil rhyngwladol yw
**Biomedical Excellence for Safer
 Transfusion Collaborative**, neu **BEST-C**,
 gyda gweledigaeth i arwain y maes meddygaeth
 trallwysu a therapïau cellog tuag at y cynhyrchion a'r
 arferion gorau ar gyfer rhoddwyr a chleifion.

Mae aelodaeth BEST-C yn rhychwantu ystod eang o'r cwmnïau a'r cyflenwyr
 gwaed sy'n ymwneud â chasglu gwaed, dosbarthu a thrallwysu byd-eang. Mae
 Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi bod yn aelod am fwy na 10 mlynedd.

Mae BEST-C yn rhoi ystyriaeth feddylgar i nodi cwestiynau ymchwil pwysig ym maes trallwysu a
 dylunio, ac yn gweithredu astudiaethau i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn. Mae BEST-C yn caniatáu
 i aelodau rannu eu cynlluniau ymchwil yn gyfrinachol gydag aelodau eraill, ac yn annog mynegiant
 o ddiddordeb i gymryd rhan a chyfrannu at eu hastudiaethau.

Trwy ein cyfranogiad yn BEST-C, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi cyfrannu at lawer o
 astudiaethau rhyngwladol, yn fwyaf diweddar ymchwiliad i safoni Cryoprecipitate, a archwiliodd
 bamedrau cynhyrchu ac ansawdd cynhyrchion gwaed ar gyfer cleifion sy'n cael therapi
 ffibrinogen (Astudiaeth BEST 158). Cyfraniad arall oedd astudiaeth a nododd strategaethau a allai
 arwain at lai o risg o haint a drosglwyddir gan drallwysiad (BEST 123).

Gall Gwasanaeth Gwaed Cymru barhau i adeiladu ein portffolio ymchwil rhyngwladol. Ein
 huchelgais yn y pen draw ar gyfer BEST-C yw i ymchwilydd o Gymru arwain menter ymchwil BEST-
 C.

**Portffolio
Prosiect
Ymchwil,
Datblygu ac
Arloesi
Portfolio**



**Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service**

Mae gennym 18 o brosiectau agored

5

Yn y thema
Trawsblannu



Yn cynnwys trawsblaniadau organau solet a bôn-gelloedd, histogydnawsedd, imiwneneteg a chofrestri rhoddwyr

3

yn y Themâu Gofal
Rhoddwyr ac
Iechyd y Cyhoedd



Yn cynnwys recriwtio a chadw rhoddwyr, cymhwysedd a gofal a gwyliadwriaeth iechyd y cyhoedd

9

yn y thema
Cynnyrch



Yn cynnwys cydrannau gwaed, sy'n cynnwys imiwnhematoleg, profi, gweithgynhyrchu cydrannau a chynnyrch, rheoli ansawdd, a gwerthuso offer a deunyddiau

1

yn y thema
Therapiau



Yn cynnwys pynciau sy'n ymwneud â therapïau cellog a therapïau gwaed eraill



56 o staff yn cymryd rhan mewn ymchwil

Mae staff yn cymryd rhan mewn ymchwil GGC, neu'n darparu cymorth gwasanaeth ynghylch ymchwil pobl eraill, ac efallai y byddant yn gwneud gwaith ymchwil fel rhan o gymhwyster. Rydym yn cydweithio â sefydliadau eraill ar draws y byd hefyd, ac yn gweithio gyda phrifysgolion a gwasanaethau gwaed rhyngwladol mewn meysydd diddordeb a rennir.



26

0 gyhoeddiadau* sy'n cynnwys cyflwyniadau cynhadleddau ac erthyglau cyfnodolion

Mae GGC yn cyhoeddi mewn cyfnodolion ac yn cyflwyno mewn cynadleddau i rannu ein canfyddiadau ac adeiladu ein henw da o fewn y gymuned ymchwil. Mae cynhyrchu cyhoeddiadau yn rhoi cyfleoedd i'n staff ddatblygu eu sgiliau ac adeiladu enw da proffesiynol

**yn y 12 mis dreigl ddiwethaf*

Cyhoeddiadau

Cyhoeddiadau effeithiol gan gydweithwyr Gwasanaeth Gwaed Cymru a'n cydweithwyr yn ystod y tri mis diwethaf.

Erthyglau Cyfnodolion

Summarised, verified and accessible: improving clinical information management for potential haematopoietic stem cell transplantation patients

Felicity May

yn y newyddiadur

BMJ Open Quality

Citation: May F, Pepperall J, Davies E, *et al.* Summarised, verified and accessible: improving clinical information management for potential haematopoietic stem cell transplantation patients. *BMJ Open Quality* 2021;**10**:e001605. DOI: 10.1136/bmjog-2021-001605

Effect of Convalescent Plasma on Organ Support-Free Days in Critically Ill Patients With COVID-19: A Randomised Clinical Trial

Janet Birchall

yn y newyddiadur

The Journal of the American Medical Association

Citation: Writing Committee for the REMAP-CAP Investigators. Effect of Convalescent Plasma on Organ Support-Free Days in Critically Ill Patients With COVID-19: A Randomised Clinical Trial. *JAMA*. 2021;326(17):1690–1702. doi:10.1001/jama.2021.18178

Cyflwyniadau'r Gynhadledd

Contrôles Internes de Qualité

Cydweithwyr yn

yn y gynhadledd

French Society of Blood Transfusion (SFTS)

cyflwyno ar ran

gwaith cydweithredu

gydag Ann Jones a

GGC

Dilys tan fis Mai 2022



Hoffem ddiolch i'r rhoddwyr gwaed, platennau a thrawsblannu
sy'n gwneud popeth a wnawn yn bosibl



Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service